ASESIAD A CHYNLLUN GWASTRAFF RHANBARTHOL DE-ORLLEWIN CYMRU

CYFARFOD Y GRŴP TECHNEGOL RHANBARTHOL

Nodiadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar ddydd Gwener Ebrill 16eg 2004 am 10.00am
Canolfan Ddinesig Penllergaer

Yn bresennol

Ceri Morris (Cadeirydd)	CBS Castell-nedd Port Talbot
Vaughan Thomas	CBS Castell-nedd Port Talbot
Clifford Parish	Dinas a Sir Abertawe
Alison Thomas	Dinas a Sir Abertawe
Audrey Evans	Asiantaeth yr Amgylchedd (De-Orll. Cymru)
Phil Williams	Cyngor Sir Caerfyrddin
Neil Bateman	Cyngor Sir Caerfyrddin
Carol Williams	CS Penfro / APCAP
Steve Bool	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-Bont
Huw Jenkins	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-Bont
Sue Martin	Llywodraeth Cynulliad Cymru
Andy Rees	Llywodraeth Cynulliad Cymru
Ruth Brown	Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Nick Oakes	Cyngor Sir Ceredigion
Philip Marks	CYLCH
Miranda Lewis	Asiantaeth yr Amgylchedd
Andy Street	SLR Consulting Cyf.

1. **Ymddiheuriadau**

Geoff White	CBS Castell-nedd Port Talbot
Cathy O'Brien	Llywodraeth Cynulliad Cymru
Graham Dorrington	Cyngor Sir Ceredigion
Dave Harries	Cyngor Sir Penfro
Karin Black	Asiantaeth yr Amgylchedd

2. **Cofnodion cyfarfod y Grŵp Technegol a gynhaliwyd ar Ionawr 23ain 2004**

Cytunwyd eu bod yn gofnod cywir.

Eitem 3: Adroddodd CM bod y CGRh wedi derbyn cymeradwyaeth ffurfiol yng nghyfarfod diwethaf y Fforwm Aelodau ar Chwefror 27ain. Nid yw cyfieithiad y CGRh ar gael eto, ond dylai fod wedi'i gwblhau erbyn diwedd mis Ebrill.

O ran nifer y copïau o'r CGRh ar gyfer pob awdurdod, nodwyd mai dim ond Abertawe a Sir Penfro oedd wedi nodi faint o gopïau y mae eu hangen arnynt. Gofynnodd CM bod pob awdurdod arall yn darparu amcangyfrif o'r nifer o gopïau y mae eu hangen cyn gynted â phosib. **Gweithredu**: Pawb.

3. **Nodiadau'r cyfarfod gyda WESA a gynhaliwyd ar Ionawr 23ain 2004** - Nodwyd

4. **Adendwm y CGRh:**

- **Cynnydd yng ngwaith Asiantaeth yr Amgylchedd**

Adroddodd CM bod cyfarfod wedi'i gynnal gyda Miranda Lewis o Asiantaeth yr Amgylchedd, lle

trafodwyd cylch gwaith y gwaith. Nodwyd y bydd y gwaith yn cael ei rannu'n ddwy ran benodol, sef cytuno ar restr o feini prawf yn gyntaf, ac yn ail, cynhyrchu'r mapiau GIS. Pwysleisiwyd o'r cychwyn cyntaf y byddai'r mapiau terfynol dan berchnogaeth y Grŵp Technegol yn hytrach nag Asiantaeth yr Amgylchedd.

Nodwyd y byddai'r rhestr o feini prawf yn gymorth wrth leoli 'ardaloedd chwilio' ar gyfer cyfleusterau claddu sbwriel ar draws y rhanbarth. Dilynwyd gan drafodaeth a nodwyd y pwyntiau canlynol:

- Mae angen bod yn ofalus wrth ddatblygu'r rhestr. Mae'n bwysig cadw hyblygrwydd yn y model a pheidio â diystyru unrhyw safleoedd dichonol;
- Dylai'r meini prawf gynnwys Parciau Cenedlaethol ac unrhyw ardaloedd tirwedd eraill a warchodir mewn CDUau dan gadwraeth;
- Dylai'r meini prawf gynnwys mynediad drwy ddŵr (cludiant);
- Mae angen cadarnhau sut mae pob maen prawf wedi'i bwyso. Cadarnhaodd ML y byddai 'holiadur pwyso' yn cael ei ddosbarthu ar ôl i restr gael ei datblygu;
- Caiff amserlen ar gyfer y gwaith ei sefydlu ar ôl i'r rhestr o feini prawf gael ei chytuno;

Cytunwyd y dylid anfon sylwadau ar y rhestr ymlaen i GW/CM erbyn dydd Gwener Ebrill 23ain. **Gweithredu**: Pawb.

- **Cynnydd yng ngwaith y Grŵp Gwastraff Rhanbarthol a Threfol**

Rhoddodd Andy Street gyflwyniad ar y cynnydd a wnaethpwyd yng ngwaith y Grŵp Gwastraff Rhanbarthol a Threfol. Dosbarthwyd copi o'r cyflwyniad ac felly nid yw'n cael ei ailadrodd.

- **Oes angen rhagor o ymchwil?**

Fel y trafodwyd yn y cyfarfod diwethaf, cytunwyd ei fod yn rhy gynnar i benderfynu'r angen am ymchwil ychwanegol tan i waith Asiantaeth yr Amgylchedd gael ei gwblhau.

- **Cost darparu'r cyfleusterau sydd eu hangen ar gyfer y CGRh - cais gan CLlLC**

Adroddodd CM nad oedd llawer o gynnydd wedi'i wneud hyd yn hyn. Nodwyd bod y ddau ranbarth arall wedi gwneud cynnydd o ran costio felly mae'n hanfodol bod ein rhanbarth yn cynhyrchu adroddiad cyn gynted â phosib. **Gweithredu**: GW.

Nododd CM bod swyddogion yn ymroddedig i baratoi Adendwm Drafft ar gyfer cyfarfod nesaf y Fforwm Aelodau a gaiff ei gynnal ar ddydd Mawrth Mai 4ydd. Mae angen dosbarthu'r papurau ar gyfer y cyfarfod hwnnw erbyn dydd Mawrth Ebrill 27ain. Oherwydd y cynnydd presennol a graddfeydd amser tynn, cytunwyd ar y canlynol:

- Paratoi *'Datganiad Interim o'r Sefyllfa'* i aelodau sy'n amlinellu'r sefyllfa gyfredol;
- Dosbarthu adroddiad drafft ar gyfer sylwadau yn gynnar/canol yr wythnos nesaf. **Gweithredu**: GW;
- Pob sylw i'w dderbyn, man pellaf, erbyn ben bore dydd Gwener Ebrill 23ain. **Gweithredu**: Pawb

5. **<u>Y tair blynedd nesaf – Y ffordd ymlaen?</u>**

Cadarnhaodd CM y cymeradwywyd yng nghyfarfod diwethaf y Fforwm Aelodau bod CBS Castell-nedd Port Talbot yn parhau yn rôl yr awdurdod arweiniol ar gyfer rhanbarth De Orllewin Cymru.

Adroddodd CM bod problem yn bodoli ynghylch 'cymal enghreifftiol' o fewn contract y Grŵp

Gwastraff Rhanbarthol, sydd dal heb ei datrys. Mae LlCC yn awyddus i gadw'r cymal ond yn awgrymu iddo gael ei gyweirio'n fanwl. Cytunwyd y dylid datrys y broblem cyn gynted â phosib. **Gweithredu**: GW i gysylltu â SM.

6. **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

Cytunwyd y bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal am 10.00am ar ddydd Gwener Mai 28ain yng Nghanolfan Ddinesig Penllergaer.

7. **Unrhyw Faterion Eraill**

Gofynnodd AR bod yr holiadur a ddosbarthwyd yn ddiweddar ynghylch ceisiadau cynllunio am gyfleusterau gwastraff yn cael ei gwblhau a'i ddychwelyd i Asiantaeth yr Amgylchedd. Pwysleisiwyd bod y wybodaeth a ddarperir yn ddefnyddiol iawn. **Gweithredu**: CM i ddosbarthu'r holiadur eto.

Adroddodd CM bod llythyr wedi'i dderbyn gan Mr Carwyn Jones, AC dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad, yn llongyfarch Aelodau a Swyddogion ar gwblhau'r Cynllun Gwastraff Rhanbarthol.

Adroddodd AR bod Ymgynghorwyr ODPM yn cynnig hyfforddiant ar y mathau gwahanol o gyfleusterau gwastraff sy'n cael eu gweithredu. Cytunwyd bod hyfforddiant o'r fath yn fuddiol i swyddogion ac Aelodau fel ei gilydd. **Gweithredu**: AR i adrodd yn ôl ar y diddordeb a fynegir.